Cofnod datgelu: Gwariant TGCh Swyddfa Archwilio Cymru

Yn dilyn fy neges e-bost ddyddiedig 19 Gorffennaf 2016, rwyf yn awr mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais dyddiedig 18 Gorffennaf 2016, sef:

A fyddech cystal â rhoi gwybodaeth imi am eich gwariant ar TGCh, fel y'i rhannwyd yn y templed atodedig? Rwyf wedi cynnwys y templed hwn er mwyn ei gwneud yn haws i chi ddeall yr hyn sydd arnaf ei angen a rhoi atebion.

Rwyf yn deall eich bod efallai yn cyhoeddi contractau a data tryloywder, ond ni allwn ddod o hyd i'r wybodaeth yn y manylder y mae arnaf ei angen yn y ffynonellau sydd wedi eu cyhoeddi.

Yn eich ateb, a fyddech gystal â chynnwys:

- **Gwariant o bob rhan o'ch sefydliad (gwasanaethau canolog ac unedau busnes);**
- **Yn ogystal â'ch sefydliad chi eich hun, gwariant ar gyfer unrhyw is-sefydliadau sy'n syrthio o**
- **fewn cwmpas eich cyfrifon chi; a**
- **Gwariant refeniw (neu weithredol) a gwariant cyfalaf hefyd.**

Pe gallech osod eich atebion i mewn yn y templed hwn a'i ddychwelyd i mi drwy'r e-bost fel atodiad, byddwn yn dra diolchgar.

Gwelwch y daenlen wedi ei chwblhau yn atodedig.

Nid wyf wedi cymhwyso unrhyw eithriadau. Fodd bynnag, os byddwch yn dymuno cwyno am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch neges e-bost neu lythyr ataf, os gwelwch yn dda.

Os oes gennych ymholiadau, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â mi, os gwelwch yn dda.

Yn gywir

Ian Phillips